



7 Ionawr 2019

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Par: Datblygu cymwysterau TGAU a TAG Safon Uwch Technoleg Digidol

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwn ein hadolygiad o gymwysterau yn y sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, *Digidol i'r Dyfodol*. Fel rhan o'r camau gweithredu yn yr adroddiad, rydym yn symud ymlaen i ddatblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Technoleg Digidol (gyda'r nod o'i addysgu am y tro cyntaf yn 2021) a TAG UG/Safon Uwch Technoleg Digidol (gyda'r nod o'i addysgu am y tro cyntaf yn 2022).

Ar hyn o bryd, rydym yn chwilio am fynegiant o ddiddordeb gan gyrff dyfarnu a fyddai'n ystyried datblygu TGAU a TAG UG/Safon Technoleg Digidol i fodloni'r meini prawf hyn.

Byddwn yn gweithio gyda chyrff dyfarnu sy'n mynegi diddordeb drwy gydol y broses o ddatblygu'r dogfennau meini prawf cymeradwyo ar y gofynion sylfaenol ar gyfer pob cymhwyster.

Nid yw'r cysylltiad â'r gyrff dyfarnu yn y cyfnod cynnar hwn o'r gwaith yn rhagofyniad ar gyfer cymeradwyo cymhwyster sydd wedi ei gynnig eisoes. Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo terfynol, bydd unrhyw gyrff dyfarnu cydnabyddedig addas yn gallu cyflwyno cymwysterau drafft i'w cymeradwyo. Yn ein profiad ni, fodd bynnag, mae cyd-weithio'n agos â chyrff dyfarnu o'r cychwyn cyntaf yn arwain at ofynion mwy eglur a phroses gymeradwyo fwy esmwyth.

Gan mai cymwysterau Cymeradwy fydd y rhain, bydd angen i gyrff dyfarnu sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Os hoffech fynegi diddordeb, atebwch y llythyr hwn, neu anfonwch e-bost atom yn datblygu@cymwysteraucymru.org, erbyn Dydd Llun 28 Ionawr 2019.

Er mwyn helpu i esbonio ein dull gweithredu, byddwn ni'n cyhoeddi'r llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

Kate Crabtree,

Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Ymchwil.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222